**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

William Graham AC
Cadeirydd, Pwyllgor Menter a Busnes

committeebusiness@cymru.gsi.gov.uk

23 Mawrth 2016

Annwyl William

Fel y gwyddoch, ar 14 Ionawr, fe gyflwynais dystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes ac ar 8 Chwefror, fe anfonais wybodaeth ychwanegol atoch chi. Bellach, rwyf mewn sefyllfa i roi rhagor o wybodaeth i chi am Deithio Llesol a materion eraill yn dilyn y Pwyllgor ar 20 Ionawr 2016 lle roeddwn yn bresennol.

Un mater y cefais fy holi yn ei gylch oedd goleuadau mewn mannau peryglus. Rwyf i yn gyfrifol am gefnffyrdd Cymru. Rydym yn monitro'r mannau peryglus sydd ar hyd ein cefnffyrdd yn rheolaidd a bob tro'n ystyried goleuadau wrth ddatblygu neu gyflawni ein cynlluniau.

Hefyd, fe gytunais y byddwn yn rhoi dadansoddiad ariannol i chi o'r cyllid rwy'n ei ddyrannu ar gyfer Teithio Llesol. Byddaf yn ysgrifennu at fy nghydweithiwr yn y Cabinet yn gofyn iddyn nhw ysgrifennu at y Pwyllgor os oes unrhyw elfen o'u cyllidebau hwy'n ymwneud â gwariant am Deithio Llesol.

Yn ogystal â'r cyllid sydd wedi'i nodi yn y tabl isod, mae elfennau o gostau Teithio Llesol yn rhan o brosiectau mawr newydd sy'n cael eu disgrifio fel costau cyffredinol, ond yn anffodus, nid yw'n hawdd darparu dadansoddiad clir ohonynt.

Edwina Hart

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Dyraniadau cyllid yn 15/16 – yr Adran Drafnidiaeth yn unig

| | |
|---|---|
| **Cyllid cyfalaf ar gyfer llwybrau teithio llesol** | |
| • Cronfa Drafnidiaeth Leol<br>• Llwybrau Diogel mewn Cymunedau<br>• Teithio llesol ar hyd Cefnffyrdd<br>• Y Rhaglen Metro (£2.5m dros ddwy flynedd)<br>• Prosiectau Cefnffyrdd Mawr (£15.3m rhwng 2012-2021) | £4.9m<br>£5.03m<br>£1.65m<br>£1.25m*<br>£1.7m*<br>(*cyfartaledd) |
| **Isgyfanswm** | **£14.53m** |
| Cyllid ychwanegol ar gyfer gwella teithio llesol<br>• Llwybrau cerdded i'r ysgol diogel ar hyd cefnffyrdd Cymru<br>• Grant Diogelwch ar y Ffordd | <br>£1.5<br>£2.59m |
| **Cyfanswm** | **£18.62m** |
| **Cyllid refeniw ar gyfer hyfforddi a hybu** | |
| • Teithiau Llesol (olynydd Beiciwch Hi)<br>• Hyfforddiant beicio<br>• Hyfforddiant cerddwyr<br>• Cydgysylltwyr cynlluniau teithio | £212k<br>£532k<br>£800k<br>£130k |
| **Cyfanswm** | **£1.674m** |
| • Astudiaethau | **£45k** |
| **Cyfanswm Refeniw a Chyfalaf** | **£20.34m** |

## Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes “Dechrau’r Daith”

Ers i’r Ddeddf ddod i rym ym mis Medi 2014, rydym wedi gwneud cynnydd rhagorol. Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddais yr Adroddiad Blynyddol cyntaf sef crynhoad o’r gwaith sydd wedi cael ei wneud hyd yma ac sy’n cynnwys y data mwyaf diweddar ar deithio llesol. Mae’r awdurdodau lleol wedi cyflwyno eu setiau cyntaf o Fapiau’r Llwybrau Presennol ac yn fuan, byddan nhw’n dechrau gweithio ar eu Mapiau Rhwydwaith Integredig. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi fframwaith ar waith i helpu awdurdodau lleol fodloni eu dyletswyddau o dan y ddeddf ac mae’n parhau â’r gwaith sy’n rhaid iddi hi ei wneud i fodloni ei dyletswyddau.

Wedi dweud hynny, dim ond megis dechrau ydym ni o hyd o ran y gwaith hwn fel y mae’r teitl y mae’r Pwyllgor wedi’i ddewis ar gyfer yr adroddiad yn ei awgrymu. Ar 29 Chwefror 2016, cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig arall pan gyhoeddais y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol cyntaf. Mae’r Cynllun Gweithredu’n disgrifio uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer teithio llesol a’r camau ehangach y byddwn yn eu cymryd i gyflawni’r uchelgais hon a’r gwaith ehangach y byddwn yn ei wneud yn ogystal â rhoi’r Ddeddf ar waith.

Byddwn yn gweithio’n agos â phartneriaid y tu mewn a’r tu allan i’r Llywodraeth er mwyn rhoi’r Ddeddf a’r Cynllun Gweithredu ar waith. Byddwn yn defnyddio’r profiadau a gawn yn ystod y camau cyntaf hyn i’n helpu i benderfynu sut y byddwn yn gweithio yn y dyfodol.

| Argymhellion y Pwyllgor | Ymateb Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru osod llinell benodol yn y gyllideb i gefnogi teithio llesol. Dylid defnyddio'r gyllideb teithio llesol i gefnogi prosiectau seilwaith teithio llesol a hyrwyddo teithio llesol fel ei gilydd. | **Gwrthod** | Nid yw Llywodraeth Cymru’n ystyried bod gwerth mewn ystyried cyllidebau trafnidiaeth ar eu pen eu hunain. Mae buddiannau teithio llesol yn cael effaith ar lawer o elfennau ynghyd â chael effaith ar amrywiaeth o adrannau gwahanol hefyd. Y ffordd yr ydym ni’n hybu ac yn gwella teithio llesol yw trwy brif ffrydio gweithgareddau, gweithio mewn dull integredig a pheidio â chyfyngu teithio llesol i’r llinell benodol yn y gyllideb ar gyfer yr adran drafnidiaeth yn unig. |
| **Argymhelliad 2.** Yn unol â'r | **Ei dderbyn mewn** | Mae Llywodraeth Cymru’n ddiolchgar i’r Athro Cole am ei |

| | | |
|---|---|---|
| argymhellion yn adroddiad annibynnol yr Athro Stuart Cole i'r Gweinidog ar deithio llesol, dylid adolygu lefel y cyllid ar gyfer teithio llesol.<br>. | **egwyddor** | adolygiad diweddar ar deithio llesol yng Nghymru. Er bod hwn yn gyfnod lle mae pwysau difrifol ar gyllidebau, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu cynnal ei lefelau cyllid ym mhob maes lle mae Teithio Llesol yn cael ei ariannu, ac ar hyn o bryd, mae'n gwario £14 miliwn y flwyddyn ar lwybrau Teithio Llesol newydd a gwell, £4 miliwn ar wella diogelwch teithio lesol, a symiau sylweddol ar hybu, addysg a hyfforddiant. Byddwn yn datblygu strategaeth ariannol ar gyfer buddsoddi mewn teithio llesol i ystyried lefelau cyllido cyffredinol. |
| **Argymhelliad 3.**<br>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan y tîm trafnidiaeth ddigon o arbenigedd a chapasiti i wneud asesiad o'r Mapiau Llwybrau Presennol a'r Mapiau Rhwydwaith Integredig y mae awdurdodau lleol yn eu paratoi. | **Derbyn** | Mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod digon o staff cymwys a thra medrus ar gael o fewn y tîm trafnidiaeth i asesu'n effeithiol y Mapiau o Lwybrau Presennol a'r Mapiau Rhwydwaith Integredig a gawn gan yr awdurdodau lleol. Mae'n rhaid defnyddio meini prawf Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 i asesu'r dogfennau a gyflwynir ac ni fyddant yn cael cyfyngu gan arbenigedd staff neu gapasiti. |
| **Argymhelliad 4.**<br>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i awdurdodau lleol ddatblygu eu Mapiau Rhwydwaith Integredig. | **Derbyn** | Yn 2016/17 a 2017/18, bydd £200,000 yn cael ei glustnnodi i helpu awdurdodau lleol i ddatblygu eu Mapiau Rhwydwaith Integredig. Amcangyfrifwyd y costau ar gyfer y cam nesaf ar sail y gwaith sy'n cael ei wneud yn fewnol. Mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol sy'n dewis dibynnu'n llwyr ar gontractwyr allanol yn gallu defnyddio eu cyllidebau eu hunain i |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfrannu at y gost hon. |
| **Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar y wybodaeth y mae'n ei chadw yn ei system ganolog ar gyfer cofnodi data, yn enwedig i'w defnyddio mewn apiau mapio. | **Derbyn** | Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried yr opsiynau ar gyfer cynnal a mabwysiadau'r system yn yr hirdymor. Bydd hyn yn cynnwys ceisio sicrhau bod y rhannau hynny o'r data fyddai o ddiddordeb i'r cyhoedd ar gael iddyn nhw a hefyd, i ba raddau y gellir rhannu data manwl gyda thrydydd partïon gan gynnwys datblygwyr apiau masnachol. |
| **Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn ymgyrch genedlaethol ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol i hybu buddion teithio llesol. Dylai'r ymgyrch gynnwys ffyrdd o geisio ennyn diddordeb pob rhan o gymdeithas Cymru, gan gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd. | **Derbyn** | Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod hybu teithio llesol yn ffactor bwysig wrth geisio cynyddu nifer y bobl sy'n cerdded a beicio. Mae Cynllun Gweithredu Teithio Llesol Cymru'n disgrifio sut y byddwn yn datblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer teithio llesol ynghyd ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Teithio Llesol. Bydd rhain yn ystyried sut y gall teithio llesol gael ei hybu ymysg y boblogaeth ehangach, gan gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd. Byddwn yn cymharu manteision cynnal ymgyrch unigol yn hytrach nag opsiynau eraill fel cyfrannu at ymgyrchoedd a sianeli sydd eisoes yn bodoli neu rai newydd. |
| **Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â'r Bwrdd a sicrhau ei fod yn rhoi'r Ddeddf ar waith yn effeithiol. | **Ei dderbyn mewn egwyddor** | Trefnodd Llywodraeth Cymru i'r Bwrdd Teithio Llesol ddod ynghyd i oruchwylio, cydgysylltu gweithgareddau ac i gefnogi'r gwaith o roi'r Ddeddf Teithio Llesol ar waith yn effeithiol. Cadeirydd y Bwrdd yw'r Athro Cole ac mae'n cynnwys partneriaid allanol pwysig gan gynnwys sefydliadau cerdded a beicio, |

| | | |
|---|---|---|
| | | Anabledd Cymru, Iechyd y Cyhoedd Cymru ac adrannau perthnasol o Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y Bwrdd yn cael ei redeg yn effeithiol. |
| **Argymhelliad 8.** Dylai'r Cynllun Teithio Llesol gynnwys datganiad o uchelgais sy'n gosod targedau ar gyfer cynyddu nifer y teithiau cerdded a beicio yng Nghymru. Dylai hefyd ddangos sut y bydd pob un o adrannau Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo ac yn cefnogi teithio llesol. | **Derbyn** | Mae'r Cynllun Gweithredu Teithio Llesol yn disgrifio ein huchelgais ar gyfer teithio llesol yng Nghymru a'r camau y bydd gwahanol adrannau yn eu cymryd i gyflawni'r uchelgais honno. Mae'n cynnwys datblygu targedau wedi'u seilio ar dystiolaeth. |